

## **Amser da i ffermwyr ystyried plannu mwy o berllannau**

MAE perllannau Cymru'n ehangu. Ar ôl cyrraedd eu lefel isaf erioed o 100ha (247 erw) ym 1981, maen nhw wedi codi i tua 400ha (988 erw).

Mae'n adeg da i ffermwyr ystyried plannu mwy o berllannau. Mae cwsmeriaid yn chwilio am fwy o gynnyrch tymhorol a lleol ac afalau yw un o hoff ffrwythau cartref Cymru o hyd.

Meddai Chris Creed, Ymgynghorydd Garddwriaethol CALU, "Mae perllannau'n ddefnyddiol i'r dirwedd a'r amgylchedd. Maen nhw'n rhoi bwyd, safleoedd nythu a chysgod i adar a mamaliaid. Gallant gyd-fynd â chynlluniau amaeth-amgylchedd fel Tir Gofal, a gall perllannau amrywiaeth treftadaeth fod yn fanteisiol iawn i fferm."

Meddai Mr Creed, "Yn ddelfrydol, mae angen safle cysgodol sy'n is na 150m uwchlaw lefel y môr, efallai ychydig yn uwch ar safleoedd da. Gellir plannu atalfeydd gwynt mewn mannau agored i roi ychydig o gysgod. Mae coed afalau angen tua 300mm o bridd wedi'i ddraenio'n dda gydag isbridd hydraidid.

"Nid yw pridd caregog yn broblem a gellir gwella pridd gwael gyda thail buarth. Rhaid dadansoddi'r pridd cyn plannu: dylai'r pH fod tua 6.5. Mae'n rhaid cadw chwyn rhag y coed yn y blynyddoedd cyntaf. Mae angen 5m wrth 3m ar gyfer pob coeden fach, a 10m sgwâr ar gyfer pob coeden draddodiadol."

Mae angen i'r coed fod yn fathau cryf sy'n ymwrthod y clafr, llwydni a chancr lle bo'n bosibl. Dylid bod yn ofalus os ydych chi'n ystyried mathau newydd, fel Braeburn a Pink Lady. Ceisiwch osgoi defnyddio un math yn unig gan fod angen eu peillio.

Gwelwyd mwy o ddiddordeb mewn ffrwythau coed traddodiadol eraill hefyd fel eirin duon, eirin, gellyg a cheirios, sydd i gyd â mathau Cymreig traddodiadol.

Mae CALU yn trefnu hyfforddiant ymarferol mewn impio a blaguro, plannu a rheoli, ac ailstrwythuro hen berllannau ac mae hefyd yn darparu taflenni gwybodaeth. Mae gwybodaeth a chymorth hefyd ar gael gan Gymdeithas Perai a Seidr Cymru [www.welshcider.co.uk](http://www.welshcider.co.uk). Am ragor o wybodaeth a chysylltiadau defnyddiol, ewch i [www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk).